CSFM(4)-01-12
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog 11 Gorffennaf

# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog – Nodyn ynghylch cyfarfod preifat

***Yn bresennol***

David Melding (Cadeirydd)
Paul Davies
Mark Drakeford
Elin Jones
Eluned Parrott

***Pa mor aml ac ymhle y caiff y cyfarfodydd eu cynnal***

1. Cytunwyd i'r Pwyllgor gyfarfod unwaith bob tymor.

2. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ceisio cynnal un cyfarfod bob blwyddyn yng ngogledd, canolbarth neu orllewin Cymru, yn ddelfrydol yn ystod tymor yr haf os bydd hynny'n cyd-fynd ag ymrwymiadau dyddiadur y Prif Weinidog.

***Y drefn gyffredinol a chynnwys y cyfarfodydd***

3. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor, ym mhob cyfarfod, ystyried un pwnc eang yn ymwneud â gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru yn ogystal ag un maes penodol sy'n ganolog i raglen Llywodraeth Cymru.

4. At y diben hwnnw, penderfynwyd mai'r ddau fater cyntaf y bydd y Pwyllgor yn craffu arnynt fydd:

    - Y Rhaglen Ddeddfwriaethol: Rôl y Prif Weinidog yn y broses o ffurfio, cynllunio a chydgysylltu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, y cynnydd a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad o gofio'i bwerau deddfu newydd, cysylltiadau â Chynulliad Cenedlaethol, gallu ac arbenigedd yn y gwasanaeth sifil a'r gymdeithas sifil i gyflwyno'r rhaglen, a hyblygrwydd yn y modd y mae'r Llywodraeth yn ymateb i newid.

    - Hyrwyddo Mentergarwch: Gweledigaeth y Prif Weinidog o ran hyrwyddo "mentergarwch" yn economi Cymru, gan gynnwys sut y caiff

mentergarwch ei phrif ffrydio a'i chydgysylltu yn Llywodraeth Cymru drwyddi draw, gan ganolbwyntio ar ddatblygu meysydd polisi trawsbynciol fel ardaloedd menter a mentrau cymdeithasol.

5. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau i godi eu hymwybyddiaeth o'r gwaith y bydd yn ei wneud, ac i'w gwahodd i gynnig meysydd eraill posibl i'r Pwyllgor graffu arnynt yn y dyfodol.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2012**

**Atodiad A**

Pynciau posibl i graffu arnynt yn y dyfodol

- Cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru dramor, gan gynnwys cysylltiadau â Llywodraeth y DU
- Comisiwn Silk – ymateb Llywodraeth Cymru, y camau nesaf, a'r berthynas â Llywodraeth y DU
- Meithrin gallu a datblygu'r gwasanaeth sifil yng Nghymru
- Uned Gyflenwi'r Prif Weinidog, a'i pherfformiad, yn enwedig ym maes iechyd
- Y prif gyfleusterau a'r seilwaith ynni, datganoli materion ynni, a buddsoddi yng Nghymru
- Perthynas Llywodraeth Cymru â'r trydydd sector a chyrff anllywodraethol
- Cynllunio strategol a chorfforaethol yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cysylltiadau rhwng portffolio'r gwahanol adrannau
- Adfywio, mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Penodiadau cyhoeddus pwysig
- Y Cod Gweinidogol
- Cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol a'r berthynas ag Ewrop a Llywodraeth y DU